Newyddion wrth Cyngor Cymuned Llanddarog	**News from Llanddarog Community Council**
Dyma'r cyntaf o'r hyn a fwriadwn i fod yn ddiweddariad o bryd i'w gilydd am waith eich Cyngor Cymuned. Mae ein gwaith yn cael ei gyllido drwy'r Dreth y Cyngor, ac er ein bod yn hawlio'r praesept sydd gyda'r isaf yn yr ardal (yn seiliedig ar eiddo Band D) rydym yn llwyddo i wneud cryn dipyn ar eich rhan.	This is the first of what we intend to be occasional updates on the work of your Community Council. Our work is funded from the Council tax you pay and whilst we are set one of the lowest precept demands in the area (Based on BAND D), we do manage to do quite a substantial amount of work for you.
Yn y lle cyntaf, rydym ni'n ceisio cefnogi cynifer o sefydliadau ag y gallwn gan ddefnyddio ein cyllideb. Enghraifft o hyn yw'r nawdd ar gyfer Sioe Llanddarog eleni, a llongyfarchiadau i bawb fu'n cyfrannu at gynnal digwyddiad llwyddiannus eto eleni. Rydym yn darparu addurniadau Nadolig yn y tri phentref sydd yn ardal y Cyngor Cymuned, sef Llanddarog, Porthyrhyd a Mynyddcerrig. Rydym hefyd yn cefnogi'r neuaddau pentref neu'r pwyllgorau llesiant drwy grantiau refeniw sefydlog. Yn ogystal â hyn oll, rydym yn cyllido a threfnu rhaglen dorri gwair ym misoedd yr haf, a chyllido goleuadau ffordd.	Primarily we try to support as many organisations as we are able within our budget. An instance of this is sponsorship of the Llanddarog Show this year, and we congratulate all those involved on a great success again. We offer to support provision of Christmas decorations for each of the three villages in our Community Council – Llanddarog, Porthyrhyd and Mynyddcerrig, as well as financially supporting each of the villages Halls/Welfare organisations via standing revenue grants. And of course, there is also our grass-cutting programme each summer as well as funding street lighting.
I ategu at y trefniadau blynyddol hyn, mae gennym raglen o brosiectau arbennig ar gyfer oes y Cyngor hwn. Mae hyn yn ein galluogi i ymateb i'ch pryderon drwy flaenoriaethu rhai prosiectau penodol. Rydym wedi cyfrannu at gost darparu arwyddion ffordd newydd ym Mynyddcerrig gyda Cyngor Sir Caerfyrddin, wedi cyllido cysgodfa yn Llanddarog, ac rydym	Apart from the above longstanding annual commitments, we have put in place a special projects programme for this Council term which has allowed us to respond to your concerns by prioritising specific projects. We have part funded the introduction of new road signage in Mynyddcerrig alongside Carmarthenshire

ar hyn o bryd yn ystyried y posibilrwydd o gyfrannu at gost darparu arwyddion rhybudd cyflymder ym Mhorthyrhyd. Mae'r Cyngor Cymuned yn cwrdd ar ail ddydd Mercher bob mis (ac eithrio mis Awst), ac mae'n bosib y cynhelir rhai cyfarfodydd ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae ein cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. Mae Manylion cyswllt y Cynghorwyr a'r Clerc ar ein gwefan cyngorcymunedllanddarog.co.uk	County Council, fully funded a waiting shelter in Llanddarog and are exploring the possibility of part funding the provision of speed warning signs in Porthyrhyd. The Community Council meets every second Wednesday of the month (apart from August) and there may also be additional special meetings in the year. Our meetings are open to the public. The contact details for our Councillors and the Clerk are on our website llanddarogcommunitycouncil.co.uk